WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau – **Cyngor Dinas Casnewydd**


Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 141A2017

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Sara-Jane Byrne, Ron Price a Non Jenkins
o dan gyfarwyddyd Jane Holownia

# Cynnwys

Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau yn gwella ac mae'n cydnabod bod angen diweddaru ei weledigaeth a'i raglen er mwyn atgyfnerthu ei drefniadau ymhellach.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 6

Adroddiad manwl

Mae Casnewydd 2020 yn rhoi cyfeiriad lefel uchel ar gyfer newid gwasanaethau, ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo fireinio'r weledigaeth hon a diweddaru ei raglen newid 7

Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniadau ar newidiadau sylweddol i wasanaethau yn glir ac yn cael eu deall yn dda 8

Mae'r Cyngor yn ystyried amrywiaeth o opsiynau pan gynigir newidiadau i wasanaethau ond yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith i wella ansawdd ei achosion busnes 9

Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer hwyluso gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid, ond nid yw'r canfyddiadau sy'n deillio o'i weithgarwch ymgysylltu bob amser yn cael eu cyflwyno mewn achosion busnes 11

Mae'r Cyngor yn monitro effaith newidiadau i wasanaethau, ond nid yw'n gwneud hynny'n systematig 12

Mae'r Cyngor wedi dysgu o roi newidiadau i wasanaethau ar waith ac mae'n cymryd camau i wella effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 ‘Governance is about how public bodies ensure that they are doing the right things, in the right way, for the right people, in a timely, inclusive, open, honest and accountable manner. It comprises the systems and processes, and cultures and values, by which public bodies are directed and controlled and through which they account to, engage with and, where appropriate, lead their communities’[1].

2 Mae llywodraethu da yn hanfodol er mwyn gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon yr ymddiriedir ynddynt yn barhaus. Mae'r hinsawdd ariannol bresennol a'r setliadau is i lywodraeth leol yn ogystal â'r galw cynyddol am rai gwasanaethau yn golygu ei bod yn debygol y bydd angen i bob cyngor barhau i wneud penderfyniadau ynghylch cyfluniad gwasanaethau a'r modd y cânt eu darparu yn y dyfodol. Mae'n briodol bod cyrff cyhoeddus yn ceisio gwella'n barhaus. Gwneir newidiadau cynyddrannol, bach i'r modd y darperir gwasanaethau ar lefel rheolwyr a lefel weithredol fel rhan o'r broses arferol o wneud newidiadau gweithredol. Fodd bynnag, mae llywodraethu da wedi'i ategu gan waith cynllunio effeithiol a phrosesau trylwyr yn hanfodol wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau. Mae penderfyniadau o'r fath yn aml yn rhai dadleuol ac yn ennyn cryn dipyn o ddiddordeb lleol a gallant gael effeithiau sylweddol ar yr unigolion a'r grwpiau y maent yn effeithio arnynt.

3 Ers mis Ebrill 2016, mae'n ofynnol i gynghorau gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Chanllawiau Statudol cysylltiedig. Mae'r Canllawiau Statudol yn nodi: ‘Gyda'i gilydd, bwriedir i'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddarperir gan y Ddeddf gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain’[2]. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd llywodraethu effeithiol i gyflawni nodau llesiant.

4 Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu Cyngor Dinas Casnewydd (y Cyngor) ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau. Rydym yn diffinio hyn fel unrhyw newid sylweddol i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a/neu unrhyw newid sylweddol o ran profiadau defnyddwyr gwasanaethau allanol o wasanaethau. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu, lefel y gwasanaeth a ddarperir, argaeledd y gwasanaeth neu gost y gwasanaeth.

5 Gan gymryd fframwaith diwygiedig Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer ‘Delivering good governance in local government’ fel safon briodol, mae'r adolygiad yn darparu llinell sylfaen i'r Cyngor gynllunio

[1] **CIPFA/SOLACE, Delivering Good Governance in Local Government: Framework 2007**

[2] **Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol, Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**, Llywodraeth Cymru

rhagor o welliannau. Yn yr asesiad hwn, a gynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2016, ystyriwyd agweddau ar y trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â nifer o gynigion ar gyfer gwneud newidiadau sylweddol i wasanaethau.

Ymhlith y newidiadau i wasanaethau a ystyriwyd roedd:

- Adolygu achosion o ymdriniaeth ddwbl (Gwasanaethau Oedolion) – Adolygu a lleihau nifer yr ymweliadau â defnyddwyr gwasanaethau sy'n gofyn am ddau weithiwr gofal.
- Gwastraff Masnachol – adolygu taliadau a chynyddu nifer y contractau
- Ad-drefnu'r modd y darperir gwasanaethau gofal dydd mewnol ar gyfer unigolion â phroblemau iechyd meddwl
- Cynyddu'r gwasanaeth casglu cardbord i breswylwyr
- Adolygu a thrawsnewid y gwasanaethau llyfrgell cyhoeddus yn y Ddinas
- Cau New Willows (gwasanaeth seibiant preswyl i oedolion ag anabledd dysgu) ac ailddarparu opsiynau seibiant
- Trafnidiaeth Rhwng y Cartref a'r Ysgol

6 Nid ystyriwyd pob un o'r penderfyniadau unigol ynghylch newid gwasanaethau yn fanwl, ond yn hytrach fe'u defnyddiwyd fel enghreifftiau i gyfeirio atynt a llywio'r ffordd y mae'r Cyngor yn mynd ati i wneud penderfyniadau ynghylch newidiadau i wasanaethau. Ystyriwyd newidiadau eraill i wasanaethau hefyd, y cawsom ein hysbysu amdanynt yn ystod ein gwaith maes.

7 Yn yr adolygiad hwn, daethom i'r casgliad bod **trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau yn gwella, ac mae'n cydnabod bod angen diweddaru ei weledigaeth a'i raglen newid er mwyn atgyfnerthu ei drefniadau ymhellach.**

# Cynigion ar gyfer gwella

## Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn pennu'r meysydd gwella a nodwyd drwy ein hadolygiad.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| Gellid atgyfnerthu trefniadau llywodraethu'r Cyngor drwy wneud y canlynol: | |
| C1 | adolygu ei raglen newid er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd yn well â'i weledigaeth gyffredinol ar gyfer newid gwasanaethau; |
| C2 | diffinio'n glir y meini prawf a ddefnyddir ganddo i benderfynu beth a gaiff ei gynnwys yn y rhaglen newid; |
| C3 | rhoi cymorth a hyfforddiant i'r Aelodau er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau priodol i ystyried newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol; |
| C4 | sicrhau y caiff canfyddiadau gweithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid eu cynnwys yn gyson mewn achosion busnes er mwyn llywio prosesau gwneud penderfyniadau swyddogion ac aelodau; a |
| C5 | nodi sut y caiff effaith newidiadau arfaethedig eu mesur a'u monitro mewn cynigion ac achosion busnes. |

# Adroddiad manwl

## Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau yn gwella ac mae'n cydnabod bod angen diweddaru ei weledigaeth a'i raglen er mwyn atgyfnerthu ei drefniadau ymhellach

### Mae Casnewydd 2020 yn rhoi cyfeiriad lefel uchel ar gyfer newid gwasanaethau, ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo fireinio'r weledigaeth hon a diweddaru ei raglen newid

8 Mae Newport 2020 yn nodi cyfeiriad lefel uchel y Cyngor ar gyfer newidiadau i'w wasanaethau a'r ffordd y bydd yr egwyddorion arweiniol a'r themâu allweddol canlynol, sydd wrth wraidd y broses barhaus o drawsnewid y Cyngor, yn cyfrannu at y newidiadau a'r arbedion sydd angen eu gwneud:

- Defnyddio technoleg yn well
- Y gallu i gynhyrchu mwy o incwm
- Sut y gall ddefnyddio adnoddau cymunedol yn fwy effeithiol?
- Sut y gall reoli'r galw wrth i'r ddinas dyfu ac adnoddau leihau?
- Pa fodelau cyflawni amgen posibl y gallai ystyried eu rhoi ar waith?
- Beth yw'r weledigaeth ar gyfer pob gwasanaeth erbyn 2020 a sut y bydd yn barnu a yw wedi llwyddo?

9 Mae Newport 2020 yn disodli rhaglen flaenorol y Cyngor, 'Prospectus for Change', a gyhoeddwyd ym mis Medi 2013. Datblygwyd Newport 2020 gan wasanaethau'r Cyngor ac fe'i cymeradwywyd gan Gabinet y Cyngor ym mis Chwefror 2016. Nid ymgysylltodd y Cyngor â'r cyhoedd ynghylch datblygu Newport 2020, er iddo ystyried ymgynghoriadau cyhoeddus blaenorol a gynhaliwyd, er enghraifft drwy ei broses gyllidebol.

10 Rhaglen newid y Cyngor, y cyfeirir ati yn aml yn nogfen Newport 2020, ei gynllun ariannol tymor canolig ac adroddiadau cyllidebol, ond nid yw'n glir o wefan y Cyngor beth mae'r rhaglen hon yn ei gynnwys. Nid yw'n hawdd dod o hyd i Newport 2020 na'r rhaglen newid ar wefan y Cyngor. Hefyd, nid yw'r meini prawf ar gyfer yr hyn sy'n cael ei gynnwys yn rhaglen newid y Cyngor yn cael eu nodi'n glir ac mae angen eu diffinio yn well.

11 Dechreuodd y rhaglen newid cyn i Newport 2020 gael ei datblygu. Rydym ar ddeall bod y rhaglen newid yn ei hanfod bellach yn cynnwys cynigion y Cyngor ar gyfer arbedion cyllidebol yn hytrach na chanolbwyntio ar raglen ehangach o newidiadau

a buddiannau y tu hwnt i arbedion. Nid yw'r Cyngor wedi diweddaru ei raglen newid er mwyn adlewyrchu Newport 2020.

12 Yn ystod ein hadolygiad, roedd yn amlwg mai cyfyngedig oedd perchenogaeth yr aelodau o Newport 2020. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo adolygu ac ail-lunio ei raglen newid er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd yn agosach â'i weledigaeth newydd. Rydym ar ddeall bod Uwch Dîm Arwain y Cyngor wedi bod yn trafod hyn. Mae'r Cyngor wedi nodi y bydd yn ailddiffinio'r Cynllun Corfforaethol a Newport 2020 yn dilyn Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017; bydd hyn yn pennu amcanion newydd, a gaiff eu hategu gan raglen newid y Cyngor.

## Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer newid gwasanaethau yn glir ac yn cael eu deall yn dda

13 Mae gan y Cyngor fframwaith llywodraethu clir ar gyfer penderfynu ar newidiadau i wasanaethau. Mae ganddo Fwrdd Newid a byrddau â phortffolio ategol sy'n cynnwys uwch swyddogion, sy'n darparu mecanweithiau i ystyried cynigion ar gyfer newid gwasanaethau a chynigion cyllidebol. Er nad yw'r Aelodau yn rhan o'r byrddau hyn, mae Aelodau'r Cabinet yn cael eu cynnwys yn briodol yn y broses o ystyried cynigion ar gyfer newid gwasanaethau drwy gyfarfodydd a gynhelir yn rheolaidd rhwng Aelodau'r Cabinet a'u cyfarwyddwyr a'u penaethiaid gwasanaeth perthnasol.

14 Nodir proses gwneud penderfyniadau'r Cyngor ar ei wefan a nodwyd gennym fod yr Aelodau a'r swyddogion yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran penderfynu ynghylch newidiadau i wasanaethau yn glir. Nodir y rhain yn fras yng nghyfansoddiad y Cyngor.

15 Roedd yr Aelodau a'r swyddogion y cyfwelwyd â hwy yn glir ynglŷn â phwy sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch newidiadau i wasanaethau ac maent yn ymgynghori â'r Swyddog Monitro os oes ganddynt unrhyw ymholiadau ynghylch pwerau gwneud penderfyniadau. Mae Swyddog Monitro'r Cyngor, y Pennaeth Cyllid a swyddogion allweddol eraill, megis y Swyddog Cydraddoldebau a'r Pennaeth Pobl a Newid Busnes, yn adolygu pob adroddiad ar brosesau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chynigion ar gyfer newid gwasanaethau. Mae gan y Cyngor dîm Polisi a Phartneriaethau, sy'n sgrinio adroddiadau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â dyletswyddau allweddol, megis y rhai sy'n ymwneud â'r Gymraeg, Cydraddoldebau a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, awgrymodd ein hadolygiad o'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr Asesiad Corfforaethol a'r gwaith dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol y byddai adroddiadau craffu hefyd yn elwa ar fwy o waith sicrhau ansawdd.

16 Daethom i'r casgliad hefyd, yn ein hadolygiad o'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr Asesiad Corfforaethol a'r gwaith dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol, nad oedd y Cyngor wedi manteisio i'r eithaf ar werth gweithgarwch craffu eto. Mae'n dda gennym nodi bod y Cyngor bellach yn

dechrau mynd i'r afael â hyn. Mae cadeiryddion newydd wedi'u penodi i'r pwyllgorau craffu ac mae'n amlwg eu bod yn frwd dros gyflawni eu rolau o ran newid gwasanaethau ac yn ymrwymedig i gydweithio'n agosach.

17 Mae'r Cyngor yn rhoi systemau ar waith er mwyn sicrhau bod penderfyniadau ynghylch newid gwasanaethau yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae wedi sefydlu gweithgor Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol trawsbleidiol. Mae hefyd wedi diweddaru ei dempledi ar gyfer ei adroddiadau, ei asesiadau effaith, ei achosion busnes a'i gynlluniau gwasanaeth er mwyn adlewyrchu gofynion y Ddeddf. Mae'r Cyngor wedi gwneud cryn dipyn o waith i ddatblygu proffiliau wardiau, y mae'n eu defnyddio i lywio ei gynigion ar gyfer newid gwasanaethau a chynnal asesiadau llesiant. Mae hyfforddiant penodol wedi'i ddarparu ar gyfer swyddogion ac aelodau ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae'r Cyngor yn parhau i feithrin gwybodaeth am y Ddeddf o fewn y sefydliad. Mae'r Pennaeth Pobl a Newid Busnes yn adolygu holl adroddiadau'r Cabinet a'r Cyngor ac yn eu dychwelyd i'r awdur os nad ydynt yn rhoi sylw priodol i egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r Cyngor wedi comisiynu ymgynghorwyr i asesu ei sefyllfa bresennol o ran ei ymateb i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a disgwylir i'r ymgynghorwyr gyflwyno eu canfyddiadau i'r Cyngor ym mis Mawrth 2017. Fodd bynnag, er bod Aelodau a'r swyddogion wedi cael rhywfaint o hyfforddiant ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a dyletswyddau cydraddoldeb ni ddarparwyd unrhyw hyfforddiant penodol i feithrin gallu mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â newid gwasanaethau, er enghraifft herio arfarniadau o opsiynau.

## Mae'r Cyngor yn ystyried amrywiaeth o opsiynau pan gynigir newidiadau i wasanaethau ond yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith i wella ansawdd ei achosion busnes dros newid gwasanaethau

18 Nodwyd gennym fod y Cyngor yn ystyried amrywiaeth o opsiynau ar gyfer newid gwasanaethau a'i fod wedi dysgu o enghreifftiau yn y gorffennol pan nad oedd hyn wedi digwydd bob amser. Yn ein hadroddiadau ar yr Asesiad Corfforaethol a'r Gwaith Dilynol arno, argymhellwyd y dylai'r Cyngor sicrhau bod aelodau yn ystyried gwybodaeth gadarn yn rheolaidd ac mewn ffordd dryloyw cyn gynted â phosibl er mwyn eu galluogi i lywio, gwneud a herio dewisiadau a phenderfyniadau'n effeithiol, a sicrhau y caiff penderfyniadau eu cofnodi ac yr adroddir arnynt mewn ffordd dryloyw. Mae hyn yn cynnwys ystyried:

- arfarniadau o opsiynau; a
- goblygiadau'r opsiynau, argymhellion a phenderfyniadau.

19 Mae templed y Cyngor ar gyfer adroddiadau yn atgoffa swyddogion bod yn rhaid i bob adroddiad i gyfarfod y Cyngor; y Cabinet ac Aelodau'r Cabinet sy'n ceisio penderfyniad, neu benderfyniadau; gyfeirio at bob opsiwn a ystyriwyd; arfarniadau

o opsiynau a goblygiadau opsiynau, yn ogystal â'r opsiwn a ffefrir. Mae'r templed ar gyfer adroddiadau yn cynnwys adrannau i swyddogion nodi'r opsiynau sydd ar gael, y rhai a ystyriwyd, yr opsiwn a ffefrir a'r rheswm dros ddewis yr opsiwn hwnnw. Nododd ein hadolygiad o sampl o adroddiadau eu bod yn cynnwys opsiynau i'w hystyried gan yr Aelodau a'u bod yn argymell opsiwn penodol, sy'n welliant allweddol.

20 Mae templed y Cyngor ar gyfer achosion busnes, y mae'n ei ddefnyddio ar gyfer ei gynigion ar gyfer newid gwasanaethau ac arbedion cyllidebol, yn cynnwys nifer o feini prawf gan gynnwys costau, yr effaith ar berfformiad a defnyddwyr, a risgiau. Fodd bynnag, nid yw'n nodi sut mae cynigion yn effeithio ar flaenoriaethau a gweledigaeth y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi nodi y bydd yn atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng blaenoriaethau a'i weledigaeth pan fydd yn datblygu ei Gynllun Corfforaethol newydd ar ôl Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017.

21 Nododd ein hadolygiad o sampl o achosion busnes a gwblhawyd, er eu bod wedi gwella, fod ansawdd yn parhau i amrywio. Nid yw pob achos busnes yn cynnwys gwybodaeth gymharol na gwybodaeth glir am gostau. Nododd yr Aelodau y cyfwelwyd â hwy fel rhan o'r adolygiad hwn eu bod bellach yn dychwelyd adroddiadau at swyddogion pan oeddent o'r farn bod y wybodaeth yn annigonol. Yn ein hadroddiad ar gydnerthedd ariannol a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Chwefror 2017, cynhwyswyd cynigion cysylltiedig ar gyfer gwella er mwyn i'r Cyngor wella ei achosion busnes. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod lle i wella ei achosion busnes ac mae wedi gwella ei broses sgrinio a herio fel rhan o'i broses gyllidebol ar gyfer 2017-18.

22 Yn ystod ein hadolygiad, nododd Aelodau fod swyddogion weithiau yn cyflwyno opsiynau sy'n annerbyniol yn wleidyddol yn eu barn hwy, ond credwn ei bod yn gadarnhaol bod swyddogion yn gwneud hyn er mwyn cynnal eu didueddrwydd a bod yr holl opsiynau yn cael eu nodi er mwyn i'r Aelodau allu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth.

23 Mae cynigion ar gyfer newid gwasanaethau yn destun gwaith craffu cyn penderfynu a cheir nifer o enghreifftiau, megis y newidiadau i'r gwasanaeth llyfrgelloedd a'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir[3], lle mae'r Cyngor wedi sefydlu grwpiau adolygu polisi i ystyried y newidiadau hyn i wasanaethau yn fanylach cyn penderfynu arnynt.

24 Mae Bwrdd Newid a byrddau â phortffolio'r Cyngor yn cynnig cyfle i swyddogion herio cynigion ar gyfer newid gwasanaethau. Mae gan y Cyngor Dîm Gwella Busnes, sydd â rôl i'w chwarae o ran sgrinio a herio cynigion ar gyfer newid gwasanaethau. Treuliodd Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor gryn dipyn o amser hefyd yn adolygu pob cynnig ar gyfer newid gwasanaethau fel rhan o broses gyllidebol 2017-18.

[3] Mae'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir yn ddarpariaeth TGCh cydweithrediadol yn Ne Cymru sy'n darparu gwasanaethau TG i nifer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus.

## Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol i hwyluso'r broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid ond ni chaiff canfyddiadau ei waith ymgysylltu eu cyflwyno mewn achosion busnes bob amser

25 Mae'r Cyngor yn cyhoeddi ei holl arbedion cyllidebol a chynigion ar gyfer newid gwasanaethau fel rhan o'i broses ymgynghori â'r cyhoedd ac mae ganddo nifer o drefniadau ar waith ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a'u hysbysu am y cynigion hyn. Mae hyn yn cynnwys ei Banel Cynnwys Dinasyddion Casnewydd, ei Gyngor Ieuenctid a'i Fforwm Gofalwyr, yn ogystal â thrwy ei gylchlythyr Materion Casnewydd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw ei Banel Dinasyddion yn cynrychioli ei boblogaeth mwyach ac mae'n parhau â'i ymgyrch recriwtio er mwyn ceisio mynd i'r afael â hyn.

26 Mae gan y Cyngor Gomisiwn Tegwch Casnewydd hefyd, sy'n darparu mecanwaith annibynnol fel cyfaill beirniadol i'r Cyngor. Mae wedi darparu adolygiad annibynnol o gynigion cyllidebol y Cyngor ac yn cynnig mecanwaith adeiladol i brofi ymateb y cyhoedd i gynigion ar gyfer newid gwasanaethau ac ystyried eu heffaith ar grwpiau sy'n agored i niwed. Mae'r Cyngor yn ystyried barn Comisiwn Tegwch Casnewydd fel rhan o'i broses gwneud penderfyniadau cyllidebol.

27 Mae gan y Cyngor boblogaeth gynyddol amrywiol ac mae'n defnyddio ei staff yn nhîm Cysylltwyr Cymunedol i ymgysylltu â chymunedau sy'n anos eu cyrraedd. Mae tîm Polisi a Phartneriaeth y Cyngor hefyd yn gweithio gyda gwasanaethau i nodi rhanddeiliaid ac ystyried ffyrdd priodol o ymgysylltu â hwy.

28 Nodwyd nifer o enghreifftiau lle mae'r Cyngor wedi defnyddio ei drefniadau ymgysylltu'n effeithiol er mwyn helpu i lywio newidiadau i wasanaethau, megis y newidiadau i'r gwasanaeth llyfrgelloedd a gwasanaethau iechyd meddwl. Roedd yn amlwg bod y Cyngor yn ymateb i ganfyddiadau ymgynghoriadau, megis canfyddiadau ynglŷn â'r broses gyllidebol a newidiadau i'r gwasanaeth llyfrgelloedd. Roedd y penderfyniad i gau New Willows, a oedd yn wasanaeth seibiant preswyl i oedolion ag anabledd dysgu, yn enghraifft brin lle nad oedd y Cyngor wedi ymgysylltu'n llwyddiannus â rhanddeiliaid. Mae'n amlwg bod y Cyngor wedi dysgu o hyn a chafodd defnyddwyr gwasanaethau eu cynnwys yn rhagweithiol yn y broses o gynllunio Canolfan Gofal Dydd Kensington.

29 Fodd bynnag, nid yw templed y Cyngor ar gyfer achosion busnes yn cynnwys unrhyw beth i ysgogi swyddogion i nodi canlyniadau unrhyw weithgarwch ymgynghori neu ymgysylltu. Nododd ein hadolygiad bod y modd roedd canfyddiadau gweithgarwch ymgynghori yn cael eu cyflwyno yn amrywio o fewn achosion busnes. Roedd enghreifftiau lle roedd swyddogion wedi cyflwyno canfyddiadau gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid o fewn adroddiadau, megis newidiadau i'r gwasanaeth llyfrgelloedd ond, yn yr un modd, roedd enghreifftiau lle nad oedd y rhain wedi'u cynnwys, megis Canolfan Gymunedol Casnewydd a

newidiadau i wasanaethau sy'n gysylltiedig ag ymdriniaeth ddwbl o achosion ym maes gofal cymdeithasol oedolion.

30 Mae'r Cyngor yn cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob un o'i gynigion ar gyfer newid gwasanaethau. Ymestynnwyd y rhain yn ddiweddar i gynnwys tegwch ac egwyddorion allweddol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae'r Cyngor yn cydnabod bod lle i wella ansawdd asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a gwblhawyd ymhellach. Mae aelodau'r Cabinet wedi cael hyfforddiant ar asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a'u dyletswyddau cydraddoldeb.

31 Mae blaenraglenni gwaith ar gyfer y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu yn eitemau sefydlog ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod o'r Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu ac maent ar gael fel rhan o bapurau agenda ond nid yw'r blaenraglenni gwaith ar gael fel dogfennau annibynnol. Gall y cyhoedd ddod o hyd i'r blaenraglenni gwaith drwy ddefnyddio cyfleuster chwilio'r Cyngor ar ei wefan, sy'n mynd â'r cyhoedd at restr o agendâu pwyllgorau sy'n cynnwys y blaenraglenni gwaith. Nid yw blaenraglen waith y Cyngor hyd at fis Ebrill 2017 yn ddigon manwl er mwyn i aelod o'r cyhoedd allu deall beth bydd y Cabinet yn ei drafod. I'r gwrthwyneb, mae rhaglenni gwaith craffu yn rhoi mwy o wybodaeth am yr eitemau ar yr agenda, er enghraifft gan amlinellu rôl y pwyllgor ar gyfer pob eitem, sy'n ei gwneud yn haws i aelod o'r cyhoedd ddeall y pynciau sy'n cael eu trafod.

32 Mae'r Cyngor yn cyhoeddi rhestr o benderfyniadau a wnaed ym mhob cyfarfod cyhoeddus ar ei wefan fel rhan o bapurau'r cyfarfod a chynhwysir y cefndir i'r penderfyniad neu'r rheswm drosto. At hynny, mae gan y Cyngor adnodd olrhain penderfyniadau ar ei wefan ond nodwyd yn ein hadroddiad ar yr adolygiad o gynnydd yr Asesiad Corfforaethol nad yw'n hawdd ei ddefnyddio ac nad yw'r Cyngor yn ei ddiweddaru'n rheolaidd. Mae hyn yn wir o hyd ac yn amharu ar dryloywder cyhoeddus a gallu'r cyhoedd i chwilio ac olrhain cynnydd yn erbyn cynigion ar gyfer newid gwasanaethau a phenderfyniadau.

## Mae'r Cyngor yn monitro effaith newidiadau i wasanaethau, ond nid yw'n gwneud hynny'n systematig

33 Nid yw achosion busnes y Cyngor nac adroddiadau'r Cabinet sy'n ymwneud â newidiadau i wasanaethau yn nodi'n glir beth mae angen iddo ei fonitro a'i werthuso er mwyn asesu effaith ei benderfyniadau ynghylch newid gwasanaethau na'r ffordd y mae angen iddo wneud hynny.

34 Mae gan y Cyngor drefniadau i fonitro'r modd y rhoddir newidiadau i wasanaethau ar waith ac y cyflawnir arbedion cysylltiedig yn ogystal â pherfformiad, ond nid oes ganddo drefniadau i fonitro meysydd eraill yr effeithir arnynt na rhoi trosolwg cynhwysfawr o effaith newidiadau i wasanaethau.

35 Mae'r Cyngor yn defnyddio ei Fwrdd Newid a'i Fyrddau â Phortffolio fel y mecanweithiau allweddol i fonitro'r modd y rhoddir prosiect neu newid i wasanaeth ar waith ac y cyflawnir arbedion y cytunwyd arnynt.  Mae adroddiadau monitro

arbedion ariannol yn ystod y flwyddyn yn seiliedig ar risg ac mae'r Cyngor yn defnyddio statws Coch/Ambr/Gwyrdd i asesu cynnydd a chyflawniad tebygol. Mae'r Cyngor yn monitro cynnydd ar sail eithriadau gan ddefnyddio dull adrodd dangosfwrdd. Mae swyddogion yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am gynnydd drwy adroddiadau monitro cyllidebau a chyfarfodydd rheolaidd ag Aelodau unigol o'r Cabinet. Mae'r Cyngor hefyd yn monitro effaith newidiadau i wasanaethau yn anuniongyrchol drwy ei drefniadau rheoli perfformiad, gan gynnwys adroddiadau rheolaidd i'r Cabinet ar berfformiad yn erbyn ei amcanion gwella. Bellach, mae gan y Cyngor ganolfan gwybodaeth reoli newydd y mae'n ei defnyddio i reoli ei berfformiad. Rydym ar ddeall bod y Cyngor yn bwriadu ymgorffori trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad contractau allweddol yn y system.

36 Mae tystiolaeth bod pwyllgorau craffu yn monitro effaith rhai newidiadau i wasanaethau, megis model cyflawni amgen Canolfan Theatr a'r Celfyddydau Glan yr Afon a Casnewydd Fyw. Lle roedd y Cyngor wedi sefydlu grŵp adolygu polisi i ystyried newid i wasanaeth, megis Casnewydd Fyw neu Newport NORSE, nodwyd gennym fod effaith y newidiadau hyn i wasanaethau ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith wedi'i chynnwys yn rhaglenni gwaith y pwyllgorau craffu perthnasol. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn gyson. Yn ystod ein gwaith maes, nododd Aelodau a swyddogion fod y newidiadau i'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi'u cynnwys yn y rhaglen o waith craffu, ond pan adolygwyd y rhaglen waith, nid oedd yr eitem hon wedi'i chynnwys.

37 Mae gan Fwrdd Newid a Byrddau â Phortffolio'r Cyngor, yn ogystal â'r pwyllgorau craffu, rôl i'w chwarae o ran monitro effaith rhai agweddau ar y newid yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, gallai'r Cyngor nodi'r cyfrifoldebau am fonitro'r effaith yn gliriach pan fydd yn cytuno ar newid i wasanaeth. Mae'r trefniadau a'r cyfrifoldebau ar gyfer monitro effaith newidiadau i wasanaethau yn gliriach ar gyfer newidiadau mwy sylweddol i wasanaethau sydd â chontractau ar waith, megis Casnewydd Fyw a Newport NORSE.

38 Nodwyd rhai enghreifftiau lle roedd y Cyngor wedi cynllunio'r trefniadau pontio ar gyfer newid gwasanaethau yn dda. Er bod pryder ynghylch y graddau roedd rhanddeiliaid wedi'u cynnwys yn y broses o gau New Willows, roedd yr aelodau yn fwy cadarnhaol ynghylch y ffordd roedd y Cyngor wedi cymryd amser i sicrhau bod trefniadau pontio priodol ar waith. Roedd hyn hefyd yn wir yn achos y newidiadau i wasanaethau gofal dydd, lle cafodd defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd gyfle i brofi'r cyfleusterau newydd a dylanwadu ar eu cynllun mewnol.

39 Mae'r Cyngor wedi gwella ei asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ond nid yw'n glir sut mae'n monitro'r rhain ar ôl iddo roi newid i wasanaeth ar waith. Cyhoeddir pob asesiad effaith ar gyfer cynigion cyllidebol a newidiadau i wasanaethau. Mae'r cynllun Cydraddoldebau Strategol yn ddatganiad cyffredinol o fwriad yn hytrach na chynllun, sy'n pennu nodau penodol neu'r ffyrdd o'u cyflawni. Nid yw'r cynllun yn pennu amserlenni ar gyfer gweithredu, yr unigolion neu'r gyfarwyddiaeth gyfrifol ddynodedig, gwybodaeth am gostau na goblygiadau o ran adnoddau.

## Mae'r Cyngor wedi dysgu o roi newidiadau i wasanaethau ar waith ac mae'n cymryd camau i wella effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu

40 Mae'r Cyngor wedi rhoi nifer o newidiadau sylweddol i wasanaethau ar waith yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae wedi rhoi ei wasanaethau hamdden ac eiddo ar gontract allanol ac wedi gwneud newidiadau i nifer o wasanaethau eraill i gwsmeriaid, gan gynnwys llyfrgelloedd, y celfyddydau a datblygu, gwasanaethau gwastraff a gofal cymdeithasol. Er nad ydym yn ymwybodol bod y Cyngor wedi adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau yn ffurfiol nac wedi gwerthuso'r gwersi a ddysgwyd o'r newidiadau y mae wedi'u gwneud i wasanaethau, cyfeiriodd Aelodau a swyddogion at nifer o welliannau y mae'r Cyngor wedi'u gwneud ar sail ei brofiad o newidiadau blaenorol i wasanaethau ac mewn ymateb i ofynion sy'n newid. Er enghraifft, ym maes gofal cymdeithasol oedolion rhoddir mwy o sylw bellach i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau mewn prosesau newid gwasanaethau yn dilyn y newidiadau a wnaed i wasanaeth New Willows. Mae'r Cyngor hefyd wedi gwella'r ystod o opsiynau a ystyrir ac mae'n mynd ati'n rhagweithiol i geisio ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei drefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae wedi comisiynu ymgynghorwyr i ddarparu adolygiad annibynnol o'r cynnydd y mae wedi'i wneud o ran gwneud hynny.

41 Daeth ein hadolygiad o gynnydd yr Asesiad Corfforaethol i'r casgliad bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â phob un o'n hargymhellion ond mae cyflymder y newid o ran trefniadau craffu yn destun pryder o hyd. Mae'n gadarnhaol nodi, ers yr adolygiad hwn, fod y Cyngor wedi dechrau gwella ei drefniadau craffu. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, nid yw'r Cyngor wedi diweddaru ei raglen newid er mwyn adlewyrchu Newport 2020 ond mae'r Cyngor wedi nodi ei fod yn bwriadu gwneud hynny a'i chysoni â'i gynllun corfforaethol newydd, a gaiff ei ddatblygu ar ôl Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone : 029 ebsite:

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660